OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3303

# Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014

## RHAN 4

## GORFODI A GWEINYDDU

**Troseddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig**

**16.**—(1) Caniateir dwyn achos o drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei fod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig yn erbyn y bartneriaeth neu'r gymdeithas yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(2) At ddibenion y cyfryw achosion—

(a) mae rheolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau i gael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas yn gorff corfforaethol;

(b) mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(**1**) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**2**) yn gymwys mewn perthynas â'r bartneriaeth neu'r gymdeithas fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforaethol.

(3) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth neu gymdeithas wrth eu collfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu allan o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(4) Pan brofir bod trosedd o dan y Rheoliadau hyn, a gyflawnwyd gan bartneriaeth, wedi ei gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu os gellir priodoli unrhyw esgeulustod ar ran partner, bernir bod y person hwnnw (yn ogystal â'r bartneriaeth) yn euog o'r drosedd honno ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(5) Pan brofir bod trosedd o dan y Rheoliadau hyn, a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig, wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad unrhyw swyddog o'r gymdeithas, neu os gellir priodoli unrhyw esgeulustod ar ran unrhyw swyddog o'r gymdeithas, mae'r swyddog hwnnw (yn ogystal â'r gymdeithas) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(6) Ym mharagraff (4), mae "partner" ("*partner*") yn cynnwys person sy'n honni gweithredu fel partner.

(7) Ym mharagraff (5), ystyr "swyddog" ("*officer*") yw swyddog o'r gymdeithas neu aelod o'i gorff llywodraethu, neu berson sy'n honni gweithredu yn rhinwedd swyddogaeth o'r fath.

(**1**) 1925 p. 86. Diddymwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 33 gan adran 132 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 (p. 55) ac Atodlen 6 iddi; diwygiwyd is-adran (3) gan adran 56(1) o Ddeddf y Llysoedd 1971 (p. 23) a pharagraff 19 o Ran 2 o Atodlen 8 iddi; diwygiwyd is-adran (4) gan adran 109(1) a (3) o Ddeddf y Llysoedd 2003 (p. 39) a pharagraff 71 o Atodlen 8 ac Atodlen 10 iddi; diddymwyd is-adran (5) gan adran 132 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 ac Atodlen 6 iddi.

(**2**) 1980 p. 43. Diddymwyd paragraff 2(a) gan adrannau 41 a 332 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44) a pharagraffau 51(1) a 13(a) o Atodlen 3 a Rhan 4 o Atodlen 37 iddi; diddymwyd paragraff 5 gan adrannau 25(2) a 101(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p. 53) ac Atodlen 13 iddi; diwygiwyd paragraff 6 gan adran 41 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 a pharagraff 51(1) a 13(b) o Atodlen 3 iddi.